## 1. CYFLWYNIAD

At ddiben y ddogfen hon, mae Cydnabod Dysgu Blaenorol, yn cyfeirio at y broses a ddefnyddir gan y Brifysgol hon (a llawer eraill) i gydnabod dysgu a gyflawnwyd gan unigolyn cyn cael ei dderbyn i raglen astudio yn Abertawe.

Yn Abertawe, mae'r term yn cwmpasu'r canlynol:

a) **Trosglwyddo Credydau** - lle dyfarnwyd credydau neu gymhwyster gan sefydliad addysg uwch yn y DU fel rhan o gymhwyster ffurfiol neu gan sefydliad y tu allan i'r DU fel rhan o gymhwyster cyfwerth.

b) **Cydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol** - dysgu blaenorol (megis dyfarniadau datblygiad proffesiynol neu ddyfarniadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth) sydd ar lefel addysg uwch ond nad yw wedi arwain at ddyfarnu credydau neu gymhwyster addysg uwch.

c) **Cydnabod Dysgu Blaenorol trwy Brofiad** - lle mae dysgu a gyflawnir drwy brofiad yn cael ei asesu a'i gydnabod.

## 2. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Ni waeth a yw cais i gydnabod dysgu blaenorol yn seiliedig ar drosglwyddo credydau, dysgu tystysgrifedig blaenorol neu ddysgu blaenorol drwy brofiad, mae'n bwysig sylweddoli mai cyflawni'r dysgu neu ddeilliannau'r dysgu hwnnw sy'n cael eu cydnabod yn hytrach na'r gweithgarwch dysgu ei hun.

Cyfrifoldeb y sefydliad derbyn, h.y. Prifysgol Abertawe, yw penderfynu faint o gredyd penodol i'w ddyfarnu i fyfyriwr unigol drwy Gydnabod Dysgu Blaenorol, yn seiliedig ar lefel, hyd a lled a pherthnasedd canfyddedig y deunydd (yn seiliedig ar wybodaeth a sgiliau) yn y rhaglen neu'r cymhwyster sy'n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd o'i gymharu â'r rhaglen astudio mae'n bwriadu ei dilyn ym Mhrifysgol Abertawe.

Fel arfer, dylid cyflwyno ceisiadau i Gydnabod Dysgu Blaenorol ar adeg cyflwyno'r cais am le ar raglen astudio - a chyn i'r myfyriwr gofrestru ar y rhaglen.

Gellir cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer modiwl cyflawn yn unig, ac nid ar gyfer rhan o fodiwl.

Ar gyfer rhaglenni gradd anrhydedd israddedig a graddau Cychwynnol Uwch, uchafswm nifer y credydau a dderbynnir i gyfrif tuag at y radd gychwynnol fydd:

- heb fod yn fwy na 240 h.y. rhaid i ymgeiswyr ddilyn o leiaf 120 o gredydau yn Abertawe fel arfer. Lle derbyniwyd uchafswm y credydau trosglwyddadwy, rhaid i weddill y credydau a ddilynir fod ar Lefel 6 neu yn uwch,

- neu uchafswm o 120 o gredydau drwy ddysgu "arbrofol" (e.e. yn y gweithle) neu "ardystiedig" (e.e. cymwysterau proffesiynol.O dan amgylchiadau eithriadol, gellir rhoi consesiwn i ymgeisydd symud ymlaen i flwyddyn olaf cwrs gradd.

Gall myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir hawlio Cydnabyddiaeth am Ddysgu Blaenorol am uchafswm o draean o gyfanswm pwyntiau credyd dyfarniad. Ni ddyfernir Cydnabyddiaeth am Ddysgu Blaenorol o ran y gydran traethawd hir neu ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd neu elfen gyfwerth a gymeradwywyd (h.y. interniaeth/modiwlau lleoliad gwaith) rhaglen.

Fodd bynnag, mae'r eithriadau canlynol yn berthnasol, a chaiff myfyrwyr hawlio cydnabyddiaeth am ddysgu blaenorol ar gyfer y rhaglenni canlynol:

- Addysgu PGCert mewn Addysg Uwch – 30 o 60 credyd
- Graddau cyn-gofrestru Nyrsio a Bydwreigiaeth – hyd at 50% o gyfanswm credydau'r rhaglen
- Therapi Galwedigaethol Cyn Cofrestru – 120 credyd (blwyddyn 1)
- Cymwysterau Gwyddor Iechyd Cyn Gofrestru – hyd at 50% o gyfanswm credydau'r rhaglen
- PGCert a ddyfarnwyd gan Brifysgol Abertawe sy'n arwain at PGDip ar yr amod nad yw'n gymhwyster ymadael
- PGDip a ddyfarnwyd gan Brifysgol Abertawe sy'n arwain at MA/MSc ac yr amod nad yw'n gymhwyster ymadael.

Efallai y bydd ymgeiswyr am ystyried y goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig ag RPL. Gall hawlio am RPL effeithio ar gymhwysedd ymgeisydd am fenthyciad myfyrwyr a chynghorir ymgeiswyr i gael cyngor gan eu cyngor cyllido cyn cyflwyno cais am RPL.

Caiff eithriadau i'r uchod eu cymeradwyo fesul achos gan yr Arweinydd Academaidd.

## 3. TROSGLWYDDO CREDYDAU

Gellir dyfarnu credyd penodol ar gyfer cyrsiau sy'n rhan o radd/cymhwyster addysg uwch sy'n dwyn credydau ac mae'n rhwydd cymharu'r lefel, y safon academaidd, y cynnwys a'r deilliannau dysgu â dyfarniad cyfatebol ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae'n rhaid bod lefel a chynnwys astudiaethau blaenorol yr ymgeisydd yn cydweddu'n briodol â'r modiwlau mae'n ceisio eithriad ar eu cyfer, yn enwedig o ran modiwlau craidd neu orfodol. Mae'n rhaid i'r Tiwtor Derbyn sicrhau bod y dysgu sy'n deillio o'r astudiaethau blaenorol hyn gyfwerth â'r dysgu y gallai'r ymgeisydd fod wedi'i gyflawni drwy ddilyn y rhaglen astudio lawn yn Abertawe. Serch hynny, mae hefyd yn bosib cydweddu â modiwlau opsiynol yn rhaglen Prifysgol Abertawe lle mae'r lefel yn gyfwerth ond nid yw'r cynnwys yn cyfateb.

Dylai ymgeiswyr sylwi, fodd bynnag, na ellir gwarantu eithriad o gredydau ar eu rhaglen astudio arfaethedig ym Mhrifysgol Abertawe ac efallai na fydd hyn yn cyfateb yn union â gwerth/lefel y credyd cyffredinol a ddyfarnwyd i'w cymhwyster cyfredol/blaenorol gan y corff dilysu, h.y. gall fod yn llai.

Ni chaiff eithriad ei ddyfarnu fel arfer ar gyfer rhaglenni/cymwysterau a ddyfarnwyd pum mlynedd neu fwy cyn y dyddiad cofrestru ar gyfer y rhaglen astudio arfaethedig. Byddai'n cael ei ystyried, yn eithriadol, lle gall yr ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ategol sy'n egluro sut mae wedi defnyddio a diweddaru'r dysgu a gyflawnwyd drwy'r rhaglen/cymhwyster yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Fel arfer, ni chaiff eithriad ei roi lle bo myfyriwr wedi cofrestru am ddyfarniad ac wedi methu rhan ohono ac yn dymuno cael ei aildderbyn ar gyfer yr un dyfarniad neu ddyfarniad tebyg.

### 3.1. Y broses cyflwyno cais

Os yw ymgeiswyr yn ansicr a yw eu hastudiaethau blaenorol yn gyfwerth â'r cymhwyster ym

Mhrifysgol Abertawe maent yn hawlio credyd ar ei gyfer, dylent gysylltu â Thiwtor Derbyn y rhaglen dan sylw am drafodaeth anffurfiol cyn cyflwyno cais  i drosglwyddo credydau.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno tystiolaeth i gefnogi ei gais i drosglwyddo credydau. Mae'n debygol y bydd tystiolaeth ategol yn cynnwys trawsgrifiad academaidd a maes llafur y rhaglen, ond bydd y Tiwtor Derbyn perthnasol yn cynghori'r ymgeisydd ar y ddogfennaeth sy'n ofynnol.

a. **Ceisiadau gan israddedigion am 'Fynediad Uniongyrchol' i flwyddyn 2 (neu flwyddyn 3)**

Dylai ymgeiswyr israddedig sydd am gyflwyno cais am fynediad uniongyrchol i flwyddyn 2 rhaglen nodi eu blwyddyn mynediad ddymunol yn yr adran 'pwynt mynediad' ar y ffurflen gais UCAS/uniongyrchol ac anfon tystiolaeth ategol i'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr.

Os yw ymgeisydd yn gofyn am fynediad uniongyrchol i flwyddyn 2 neu 3 ar ei ffurflen gais, bydd y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr yn gwneud asesiad cychwynnol o'r ffurflen fel arfer ac yn amlygu'r wybodaeth ynghylch pwynt mynediad er sylw'r Tiwtor Derbyn. Os nad oes digon o dystiolaeth ategol o astudiaethau blaenorol yr ymgeisydd, dylai'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr roi gwybod i'r Tiwtor Derbyn a dylid gofyn i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ychwanegol.

Cyfrifoldeb Tiwtor Derbyn y rhaglen yw asesu a chymeradwyo ceisiadau am fynediad uniongyrchol i flwyddyn 2 y rhaglen (neu flwyddyn 3 rhaglen gradd gychwynnol uwch 4 blynedd). Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir ystyried cais am fynediad uniongyrchol i flwyddyn olaf rhaglen gradd israddedig, yn amodol ar gymeradwyaeth y Tiwtor Derbyn a'r Panel Matriciwleiddio.

Nid yw mynediad uniongyrchol yn briodol ac eithrio ar gyfer y rhai hynny sy'n ceisio eithriad, ar adeg cyflwyno cais, o flwyddyn/lefel gyfan rhaglen israddedig.

b. **Ceisiadau i drosglwyddo credydau ar gyfer modiwlau unigol**

Dylai ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen gais safonol ar gyfer y rhaglen (e.e. UCAS, cais uniongyrchol, etc) a’r Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol: Ffurflen trosglwyddo Credyd; gan amgáu tystiolaeth ategol berthnasol (fel arfer, trawsgrifiad ffurfiol a maes llafur sy'n nodi canlyniadau dysgu).

Gellir cymryd hyd at 6 wythnos i brosesu ceisiadau i drosglwyddo credydau a bydd y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i'w hysbysu am y canlyniad.

### 3.2. Dosbarthiadau Gradd

Ni fydd marciau credydau a drosglwyddir o Sefydliad Addysg Uwch arall yn y DU yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r dyfarniad. Bydd y dyfarniad yn cael ei ddosbarthu gan ddefnyddio'r credydau a ddilynwyd ym Mhrifysgol Abertawe.

## 4. CYDNABOD DYSGU TYSTYSGRIFEDIG BLAENOROL/DYSGU BLAENOROL DRWY BROFIAD

Er mwyn dyfarnu eithriad ar sail dysgu tystysgrifedig blaenorol neu ddysgu blaenorol drwy brofiad ar gyfer rhaglenni sy'n destun gofynion proffesiynol statudol neu reoleiddiol, bydd

angen bodloni gofynion penodol. Dylai ymgeiswyr gofyn i'r Tiwtor Derbyn perthnasol am gyngor pellach.

**MA mewn Addysg (Cymru):** Gall ymgeiswyr cartref sy'n meddu ar statws Athro Cymwys cyn 2023 ac yn cael eu cyflogi yn sector addysg y DU ar hyn o bryd gael eu hystyried am eithriad hyd at 40 o gredydau'n seiliedig ar ddysgu arbrofol. Bydd asesiad yn seiliedig ar gyflwyno CV strwythuredig cyfoes, tystiolaeth o DPP a ffurflen RPeL wedi'i chwblhau y gellir ei lawrlwytho o dudalen rhaglen MA Addysg (Cymru) Abertawe.

### 4.1. Y Broses Ymgeisio

Anogir ymgeiswyr sydd am gyflwyno cais ar sail Achrediad ar gyfer Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol neu Ddysgu Blaenorol drwy Brofiad i gysylltu â Thiwtor Derbyn y rhaglen dan sylw am drafodaeth anffurfiol cyn cyflwyno cais.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno tystiolaeth i ategu ei gais i gydnabod dysgu blaenorol.

Bydd ceisiadau am ddysgu tystysgrifedig blaenorol neu ddysgu blaenorol drwy brofiad yn cael eu hasesu'n unigol. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyflawni profiad dysgu perthnasol. Gallai hyn fod drwy un neu fwy o'r canlynol, i'w benderfynu gan y Tiwtor Derbyn perthnasol:

a. ymgymryd ag un neu fwy o asesiadau cymeradwy ar gyfer pob modiwl (gallai hyn fod ar ffurf asesiadau safonol neu arholiadau atodol); neu asesiadau wedi'u dylunio a'u cymeradwyo'n benodol etc); neu

b. gall gyflwyno portffolio o dystiolaeth i ddangos ei fod wedi cyflawni deilliannau dysgu'r modiwl(au) a myfyrdod personol yr ymgeisydd am sut mae'r profiad wedi cynyddu ei ddealltwriaeth o'r maes pwnc perthnasol: gall hyn gynnwys cadarnhad gan reolwyr llinell o'r disgrifiad swydd/cyfrifoldebau'r swydd a galluoedd yr ymgeisydd.

   Bydd y Gyfadran yn cynnal asesiad cychwynnol i benderfynu a oes gan yr ymgeisydd ddigon o brofiad perthnasol i gwblhau portffolio.

   Bydd y Gyfadran yn sicrhau bod ymgeiswyr sydd am gael cydnabyddiaeth am Ddysgu Tystysgrifedig Blaenorol neu Ddysgu Blaenorol drwy Brofiad sy'n cael cynhyrchu portffolio yn derbyn cyngor digonol ynghylch yr hyn sy'n ofynnol cyn dechrau'r gwaith (strwythur, nifer y geiriau etc). Byddant yn cefnogi'r ymgeisydd (o fewn terfynau penodol) i gynhyrchu ei bortffolio.

   Bydd y Gyfadran yn hysbysu ymgeiswyr sydd am gael cydnabyddiaeth am Ddysgu Tystysgrifedig Blaenorol neu Ddysgu Blaenorol drwy Brofiad am unrhyw offer asesu ychwanegol a ddefnyddir wrth asesu eu ceisiadau (e.e. cyfweliadau, profion diagnostig, aseiniadau arbennig).

   Bydd y Gyfadran yn sicrhau bod ymgeiswyr yn llwyr ymwybodol o ofynion cais am gydnabyddiaeth ar gyfer Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol neu Ddysgu Blaenorol drwy Brofiad cyn cyflwyno cais a'u bod yn deall nad yw cwblhau portffolio yn gwarantu y caiff eithriad ei roi.

   Wrth gyflwyno'r portffolio, bydd y Gyfadran yn pennu a yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod yr ymgeisydd wedi bodloni canlyniadau dysgu modiwlau Abertawe y gofynnir am eithriad amdanynt; a gwneud argymhelliad ar gyfer Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol neu Ddysgu Blaenorol drwy Brofiad i Arweinydd Academaidd Derbyn y Brifysgol.

Gellir cymryd hyd at 10 wythnos i brosesu ceisiadau am Gydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol/Ddysgu Blaenorol drwy Brofiad.

### 4.2. Dosbarthiadau Gradd

Fel arfer dyfernir gradd llwyddo/methu i Achrediad am Ddysgu Tystysgrifedig Blaenorol/Dysgu Blaenorol drwy Brofiad yn hytrach na marc.

Dim ond y marciau ar gyfer modiwlau a astudiwyd yn Abertawe a ddefnyddir i gyfrifo dosbarth y radd, ac nid y credydau drwy Gydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol/Dysgu Blaenorol drwy Brofiad.

Lle cydnabyddir blwyddyn israddedig gyfan, bydd y datganiad canlynol yn ymddangos ar y trawsgrifiad. "Caniatawyd eithriad o gam cynnar y rhaglen astudio drwy gredyd, ar sail astudio mewn sefydliad arall, cymhwyster blaenorol neu brofiad gwaith perthnasol."

Yn achos achrediad ar gyfer credydau unigol (llai na blwyddyn gyfan) byddai nifer y credydau'n ymddangos ar y trawsgrifiad.

## 5. FFÏOEDD DYSGU

Polisi cyfredol y Brifysgol yw lleihau ffioedd dysgu myfyriwr yn ôl cost unrhyw fodiwlau sy'n cael eu heithrio drwy Gydnabod Dysgu Blaenorol (ond, gweler 4.2 uchod am daliadau ar gyfer ceisiadau Cydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol/Dysgu Blaenorol drwy Brofiad). Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i adolygu'r polisi hwn ar unrhyw adeg. Os bydd cais ymgeisydd am Gydnabod Dysgu Blaenorol yn llwyddiannus, caiff cost unrhyw fodiwlau sy'n cael eu heithrio ei didynnu o'i ffioedd dysgu.

Fodd bynnag, os bydd yr ymgeisydd yn disgwyl penderfyniad ynghylch cais i Gydnabod Dysgu Blaenorol ar adeg cofrestru, bydd rhaid iddo dalu'r ffi ddysgu lawn yn brydlon. Os dyfernir credyd tuag at radd iddo wedi hynny, bydd yn derbyn ad-daliad am unrhyw fodiwlau sy'n cael eu heithrio.

Bydd Gwasanaethau Academaidd (Cyllid Myfyrwyr) yn cyfrifo unrhyw ostyngiad yn y ffioedd dysgu ar ôl i'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr anfon llythyr penderfyniad at yr ymgeisydd a chaiff ei gofnod myfyriwr ei ddiwygio i adlewyrchu hyn.

## 5. APELIADAU

Ni fydd y Brifysgol yn ailystyried penderfyniad ynghylch Cydnabod Dysgu Blaenorol lle mai'r unig sail dros geisio apêl yw'r ffaith bod yr ymgeisydd yn anghytuno â'r farn academaidd sy'n sail y penderfyniad, a lle nad oes unrhyw dystiolaeth na ddilynwyd y gweithdrefnau cywir. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar y Brifysgol i ystyried apêl am yr unig reswm bod yr ymgeisydd yn anfodlon derbyn y penderfyniad gwreiddiol i beidio â dyfarnu credyd a'i fod am wrthdroi'r penderfyniad hwnnw.

Ni chaiff ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau aflwyddiannus i Gydnabod Dysgu Blaenorol ofyn i'r penderfyniad gael ei adolygu ond ar sail tystiolaeth ychwanegol nad oedd ar gael ar adeg y cais, neu os oes tystiolaeth na ddilynwyd y gweithdrefnau cywir. Er enghraifft, os

bydd yr ymgeisydd yn dod o hyd i ddogfennaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'w astudiaethau tystysgrifedig blaenorol ac yn cefnogi ei gais. Dylid cyflwyno cais ysgrifenedig i'r penderfyniad gael ei adolygu'n ffurfiol i'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr.

**Mae mwy o wybodaeth ar dudalen 12 adran Asesu'r Polisi Cyngor ac Arweiniad yng Nghôd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch (QAA):**

**https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/quality-code/advice-and-guidance-assessment.pdf?sfvrsn=ca29c181_4**